OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2948 (Cy. 189 ) (C. 86 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Hydref 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Tachwedd 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 108(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2000

**2.** Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn dod i rym mewn perthynas â Chymru ar 1 Tachwedd 2000 –

adran 3(3), (4), (5), (6) a (7) (terfynau ar bwerau i hybu llesiant)

adran 4(3)(b), (4) a (5) (strategaethau i hybu llesiant)

adran 5(5) (pŵ er i ddiwygio neu ddiddymu deddfiadau)

adran 6(6) (pŵ er i addasu deddfiadau ynghylch cynlluniau etc.)

adran 7 (pŵ er i addasu deddfiadau ynghylch cynlluniau etc: Cymru)

adran 11(5), (6) a (9) (gweithrediaethau llywodraeth leol)

adran 12(1) (mathau ychwanegol o weithrediaeth)

adran 13(3), (5), (6), (12), (13) a (14) (swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb gweithrediaeth)

adran 17 (cyflawni swyddogaethau: a. 11(5) gweithrediaeth)

adran 18 (cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau ardal)

adran 19 (cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol arall a chan un arall)

(**1**) 2000 p.22

adran 20 (arfer swyddogaethau ar y cyd)

adran 22(6), (7), (8), (9), (10), (11), (12) a (13) (cael gweld gwybodaeth etc.)

adran 23 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 8(4), (5), ac (8), 9(4), (5) a (6), 10 ac 11 o Atodlen 1 (darpariaeth bellach)

adran 25(5), (6), a (8) (cynigion)

adran 27(9) a (10) (refferendwm yn achos cynigion sy'n ymwneud â maer etholedig)

adran 28(1) a (2) (cymeradwyo cynigion wrth gefn amlinellol)

adran 30 (defnyddio gwahanol drefniadau gweithredol)

adran 31(1)(b) (trefniadau amgen yn achos awdurdodau lleol penodol)

adran 32 (trefniadau amgen)

adran 33(5), (6), (7), (8), (9), (10) a (11) (defnyddio trefniadau amgen)

adran 34 (refferendwm yn dilyn deiseb)

adran 35 (refferendwm yn dilyn cyfarwyddyd)

adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn)

adran 37(1)(a) (cyfansoddiad awdurdod lleol)

adran 38 (canllawiau)

adran 39(1), (3), (4) a (5) (meiri etholedig etc.)

adran 41 (amser etholiadau etc.)

adran 44 (pwer i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau)

adran 45(5), (6), (7), (8) a (9) (darpariaethau ynglyn â refferenda)

adran 47 (pwer i wneud darpariaeth achlysurol, canlyniadol etc.)

adran 48 (dehongli Rhan II)

adran 49(2), (5), (6)(a), (b), (f), (l), (m) a (p) a (7) (egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau o awdurdodau perthnasol)

adran 50(2), (3), (4), (5), (6) a (7) (cod ymddygiad enghreifftiol)

adran 53(11) a (12) (pwyllgorau safonau)

adran 54(5) a (7) (swyddogaethau pwyllgorau safonau)

adran 68(3), (4) a (5) (Comisynydd Lleol a'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru)

adran 70(1) a (2) (ymchwiliadau: darpariaethau pellach)

adran 73(1), (2), (3), (4), (5) a (6) (materion a gyfeirir at swyddogion monitro)

adran 75(2), (5), (6) a (8) (panelau dyfarnu)

adran 76(13) (tribiwnlysoedd achosion a thribiwnlysoedd achosion interim)

adran 77(4) a (6) (dyfarniadau)

adran 81(5) a (8) (datgelu a chofrestr buddiannau aelodau etc.)

adran 82(2), (3), (6), (8) a (9) (cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol)

adran 83(1), (2), (3), (5), (6), (7), (8), (9), (10), (11), (13) a (14) (dehongli Rhan III)

adran 100 (pŵ er i wneud darpariaeth ynghylch lwfansau)

adran 101(2), (3), (4) a (5) (indemnio aelodau a swyddogion awdurdodau perthnasol)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D Elis Thomas*
31 Hydref 2000 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau penodol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") i rym mewn perthynas â Chymru ar 1 Tachwedd 2000. Mae'r darpariaethau hynny yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, mewn un achos (adran 44), i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gwaith yr awdurdodau lleol i hybu llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardaloedd, trefniadau awdurdod lleol ar gyfer creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod hwnnw ac ymddygiad aelodau a gweithwyr cyflogedig awdurdodau lleol.

Mae adran 108(6) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod â'r darpariaethau hyn i rym mewn perthynas â Chymru cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf sef yr amser a benodwyd gan adran 108(4) o'r Ddeddf. Pasiwyd y Ddeddf ar 28 Gorffennaf 2000.